


Beth yw abladiad endometriaidd?

Mae abladiad endometriaidd yn broses a ddefnyddir i ddinistrio (abladu) leinin y groth (yr endometriwm). Cynigir y math hwn o driniaeth i fenywod sy'n profi mislif trwm, yn enwedig os nad yw triniaeth feddygol wedi bod yn effeithiol. Fe'i cynigir hefyd fel dewis arall yn lle llawdriniaeth fawr megis hysterectomi. Gellir cyflawni'r driniaeth hon o dan anesthetig cyffredinol neu leol.

Sut wneir y driniaeth?

Yn BIPAB, rydym yn defnyddio dyfais o'r enw NovaSure®. Fel rhan o'r driniaeth, caiff telesgop tenau (hysterosgop) ei basio trwy'ch fagina a'ch serfics (gwddf y groth) i ganfod a yw maint a siâp eich croth yn addas. Efallai y cymerir sampl fach o leinin eich croth (biopsi endometriaidd) hefyd. Yna, caiff y ddyfais NovaSure ei gosod yn eich croth trwy'ch fagina a'i hagor y tu mewn i'r groth. Yna, caiff leinin eich croth ei ddinistrio trwy ddefnyddio tonnau ynni a gynhyrchir gan y ddyfais. Bydd y broses honno'n para munud neu ddwy. Yna, caiff y ddyfais ei chau a'i thynnu o'ch croth. Bydd y driniaeth yn para 10-20 munud.



Beth yw manteision y driniaeth?

- Triniaeth gyflym – yn para llai na phum munud
- Mae 91% o fenywod wedi profi llai o waedu yn ystod y mislif neu mae'r gwaedu yn ystod y mislif wedi dod i ben yn llwyr o fewn blwyddyn.
- Dywedodd 41% o fenywod fod eu mislif wedi dod i ben yn llwyr
- Ni wneir unrhyw doriadau llawfeddygol; nid yw'n llawdriniaeth fawr
- Ni ddefnyddir hormonau yn y driniaeth
- Nid yw'n effeithio ar amser dechrau'r menopos

Dyma'r risgiau mwyaf cyffredin:

- Gwaedu afreolaidd a all bara am sawl wythnos.
- Haint - gallwn roi gwrthfotigau i chi os bydd angen hynny.
- Poen a brofir yn syth wedi'r driniaeth (yn achlysurol, profir poen mud am ychydig oriau wedi'r driniaeth.
- Efallai na fyddwn yn gallu cyflawni'r abladiad.

Mae'r risgiau difrifol - ond anghyffredin iawn - yn cynnwys:

- Tyllu damweiniol yn y groth (twll bach yn agor yn y groth)
- Difrod i organau eraill megis y bledren neu'r coluddyn, a bydd angen llawdriniaeth arall i unioni unrhyw ddifrod neu golostomi.
- Anaf llosgi damweiniol i'r croen ar y fwlf a neu'r fagina

Mae'r risgiau hirdymor ac anghyffredin iawn yn cynnwys:

- Poen gylchol a achosir gan hematometra, sef cadw gwaed yn y groth oherwydd llif mislif ataliedig (syndrom sterileiddio tiwbiau ar ôl abladiad).
- Gall abladiad endometriaidd achosi meinwe craith, ac yn sgil hynny, gall fod yn anodd gweld gwaedu annormal yn y fagina â thelesgop. Gall hynny olygu y bydd hi'n anoddach diagnosio canser y groth yn y dyfodol.

Pwyntiau pwysig i'w nodi:

- **Rhaid i chi ddefnyddio dulliau atal cenhedlu** yn ystod y tair wythnos cyn y driniaeth. Ni ellir ymgymryd â'r driniaeth os ydych chi'n feichiog, neu'n meddwl y gallech chi fod yn feichiog, neu os oeddech chi'n feichiog yn ystod y chwe wythnos diwethaf cyn y driniaeth.
- **Rhaid i'ch teulu fod yn gyflawn cyn ichi gael y driniaeth hon.** Bydd angen i chi ddefnyddio rhyw fath o ddull atal cenhedlu wedyn i sicrhau na wnewch chi feichiogi, oherwydd gall hynny fod yn beryglus i chi.
- Fel arfer, ni argymhellir y driniaeth hon ychwaith os bydd y gwaedu yn digwydd oherwydd tyfiannau yn eich croth (ffibroidau).

Beth fydd yn digwydd ar ôl y driniaeth?

- Dylech chi allu mynd adref ar yr un diwrnod. Rydym yn eich cynghori y dylai rhywun fynd â chi adref.
- Efallai y bydd angen i chi gymryd cyffuriau lleddfu poen a werthir dros y cownter am ychydig ddyddiau
- Bydd y rhan fwyaf o fenywod yn ailafael yn eu gweithgareddau / gwaith arferol yn fuan iawn.
- Mae'n arferol profi smotiau o waed / gwaedu ysgafn / hylif dyfrllyd am ychydig ddyddiau, neu'n hirach na hynny ar brydiau. Os bydd y gwaedu'n drwm ac os bydd yn gwynto'n annymunol, cysylltwch â'ch meddyg teulu.
- Os cawsoch fiopsi, bydd eich meddyg yn eich hysbysu am y canlyniad.

- Dylai eich mislif fod yn llawer ysgafnach, neu efallai na fyddwch chi'n gwaedu o gwbl. Bydd rhai menywod yn dal i brofi poenau mislif hyd yn oed os na fyddant yn gwaedu.
- Yn anffodus, ni fydd y driniaeth hon yn llwyddo i bawb. Os byddwch chi'n dal i brofi gwaedu trwm ar ôl 3-6 mis, ewch i weld eich meddyg teulu fel y gall eich cyfeirio'n ôl i drafod dewisiadau eraill.

A oes unrhyw beth arall y dylech chi / na ddylech chi ei wneud ar ôl y llawdriniaeth?

Rydym yn eich cynghori i:

- Ddefnyddio padiau mislif yn hytrach na thamponau ar gyfer y gwaedu.
- Peidio â chael cyfathrach rywiol na nofio am 7 diwrnod neu hyd nes bydd unrhyw waedu neu ollyngiadau wedi stopio.
- **Defnyddiwch ddull atal cenhedlu effeithiol**, oherwydd ni fydd y driniaeth hon yn eich atal rhag beichiogi. Gall unrhyw feichiogrwydd ar ôl triniaeth Novasure fod yn beryglus i chi a'r babi.
- **Parhewch â'ch profion ceg y groth rheolaidd.**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am driniaeth NovaSure, gallwch hefyd droi at y wefan isod: <https://novasure.com/>

Pa driniaethau eraill sydd ar gael?

- Therapi cyffuriau megis asid tranecsamig neu'r bilsen atal cenhedlu
- Dyfais fewngroth sy'n rhyddhau hormonau (e.e. Mirena IUS)
- Hysterectomi - triniaeth lawfeddygol i dynnu'r groth a gynigir fel arfer os bydd dulliau eraill wedi bod yn aneffeithiol. Mae risgiau mwy difrifol yn gysylltiedig â'r driniaeth hon ac mae'r cyfnod adfer yn arafach nag yn achos abladiad endometriaid.
- Dim dulliau rheoli – gwneud dim byd a monitro

Rhifau Cyswllt Defnyddiol

EGAU yn Ysbyty Prifysgol Y Faenor - 01633 - 493557

Uned Triniaethau Dydd Ysbyty Neville Hall - 01873 - 733239

Cyfeiriadau:

- Endometrial ablation - Information for patients, relatives and carers. Obstetrics and Gynaecology - The York Hospital
- Taflen wybodaeth 'NovaSure® Endometrial Ablation'. Hologic.
- Endometrial Ablation for Heavy Menstrual Bleeding - Gynaecology Patient Information. Royal Berkshire NHS Foundation Trust.
- Information for you after an endometrial ablation - recovering well. Taflen i gleifion gan RCOG.
-

“This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg”.

**Cytundeb y claf i gael
Ymchwiliad neu
Driniaeth
Gynaecolegol:**

Enw'r broses: Hysterosgopi, biopsi endometriaidd, abladiad endometriaidd gan ddefnyddio NovaSure®

Archwiliad o geudod y groth â biopsi neu heb fiopsi, ffotograffau, dinistrio leinin y groth.

1. Datganiad y claf/rhiant

Mae gennych yr hawl i ailfeddwl ar unrhyw adeg, hyd yn oed ar ôl i chi lofnodi'r ffurflen hon.

Rwyf wedi darllen a deall y wybodaeth yn y llyfryn atodedig, gan gynnwys y manteision ac unrhyw risgiau.

Rwy'n cytuno i gael y driniaeth a ddisgrifir yn y llyfryn hwn ac ar y ffurflen. **Rwy'n deall** na allwch chi fy sicrhau y bydd unigolyn penodol yn cynnal yr archwiliad. Fodd bynnag, bydd gan yr unigolyn brofiad priodol. Os bydd hyfforddai'n cynnal yr archwiliad, bydd hynny'n digwydd o dan oruchwyliaeth ymarferydd cwbl gymwys. Rwyf wedi darllen y llyfryn gwybodaeth i gleifion ac rwy'n deall y driniaeth a'r risgiau cysylltiedig.

Llofnod..... Enw (PRINT BRAS):.....
Dyddiad.....

Os ydych yn dymuno gofyn unrhyw gwestiynau ychwanegol, peidiwch â llofnodi'r ffurflen nawr. Dewch â'r ffurflen gyda chi a gallwch ei llofnodi ar ôl sgwrsio â gweithiwr proffesiynol iechyd.

2. Cadarnhau cydsyniad (i'w gwblhau gan weithiwr proffesiynol iechyd pan ddaw'r plentyn i gael yr archwiliad, os bydd y rhiant/plentyn wedi llofnodi'r ffurflen ymlaen llaw).

Rwyf wedi cadarnhau bod y claf/rhiant yn deall beth fydd yn digwydd yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys y manteision ac unrhyw risgiau. Nid oes gan y claf unrhyw gwestiynau ychwanegol ac mae'n dymuno cael bwrw ymlaen â'r driniaeth.

Llofnod..... . Dyddiad.....

Enw (PRINT BRAS).....Teitl y
swydd.....

3. Datganiad gan weithiwr proffesiynol iechyd (i'w lenwi gan weithiwr proffesiynol iechyd sydd â gwybodaeth briodol am yr archwiliad arfaethedig, fel y nodir yn y polisi cydsynio). Mewn ymateb i gais am ragor o wybodaeth, rwyf wedi egluro'r weithdrefn wrth y claf/rhiant. Yn benodol, rwyf wedi esbonio'r canlynol:

Y manteision arfaethedig:

- Diagnostig - canfod achos mislif trwm
- Triniaeth - rheoli mislif trwm

Risgiau sylweddol, rhai na ellir eu hosgoi neu rai sy'n digwydd yn aml:

- Twll yn y groth, anaf i'r coluddyn neu'r bledren, gwaedu afreolaidd ac anrhagweladwy yn y fagina, poen, haint, anaf thermol.
- Rhedlif parhaus o'r fagina ar ôl yr abladiad, crampiau
- Risg o feichiogi. Rhaid i chi ddefnyddio atal cenhedlu dibynadwy. Nid yw hon yn driniaeth sterileiddio.
- Methu â thrin eich symptomau neu gyflawni'r driniaeth • Yn anaml, necrosis groth, emboledd aer ac anaf difrifol neu farwolaeth.

Hirdymor

- Poen cylchol, oherwydd hematometra efallai.
- Trafferth cael biopsi neu ymgymryd â hysterosgopi yn y dyfodol i nodi hyperplasia annodweddiadol neu ganser y groth.
- Beichiogrwydd anfwriadol yn achosi canlyniadau niweidiol
- Syndrom sterileiddio tiwbiau ar ôl abladiad (poen yn y pelfis, hydrosalpinx, adlynu yn sgil crawniadau yn y pelfis)

Rwyf hefyd wedi trafod beth mae'r driniaeth yn debygol o'i gynnwys, manteision a risgiau unrhyw driniaethau eraill sydd ar gael (gan gynnwys peidio â chael triniaeth) ac unrhyw bryderon penodol sydd gan y sawl sydd dan sylw.

Os bydd amheuaeth o dyllu yn y groth, efallai y bydd angen i ni archwilio oddi mewn i'ch abdomen gan ddefnyddio telesgop llawfeddygol neu efallai y bydd angen llawdriniaeth fawr arnoch o'r enw laparotomi (gwneir toriad mwy yn eich abdomen yn y driniaeth honno).

Llofnod.....Dyddiad.....

Enw (PRINT BRAS).....Teitl y
Swydd.....

4. Datganiad y dehonglydd (Ile bo'n briodol) Rwyf wedi dehongli'r wybodaeth uchod hyd eithaf fy ngallu i'r claf/rhiant ac mewn modd y gall hi ei ddeall yn fy nhyb i.

Llofnod.....Dyddiad.....

Enw (PRINT BRAS).....Teitl y
swydd.....

Cylchrediad: COPI 1^{af}: YSBYTY;

2^{IL} GOPI: CLAF Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd
Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan